# Cofnodi Metadata Disgrifiadol:

# Canllaw i Greu Catalog CWC: Deunydd Diriaethol

# Hawlfraint: Cyflwyniad byr iawn.

## Cynnwys

**Cofnodi Metadata Disgrifiadol:** .......... 2
**Canllaw i Greu Catalog CWC: Deunydd Diriaethol** .......... 2
**Hawlfraint: Cyflwyniad byr iawn.** .......... 8

# Cofnodi Metadata Disgrifiadol:

# Canllaw i Greu Catalog CWC: Deunydd Diriaethol

**Nodiadau Cyffredinol.**

- Dylid gwahanu paragraffau yn yr adran Disgrifiad â bwlch llinell (daliwch 'alt' i lawr a gwasgwch 'enter' ddwywaith);
- Talfyriadau: defnyddiwch: Mr, Dr (dim atalnod llawn), NID Mr., Dr.;
- Dyddiadau mewn teitlau a disgrifiadau: defnyddiwch rifau prifol: 29 Tachwedd 1976; PEIDIWCH â defnyddio'r rhifau trefnol: 1af, 2il, ac ati;
- Golygwch y sillafu, y gramadeg a'r atalnodi cyn cyflwyno catalog.

**Colofn 0: Delwedd / Enw Ffeil.**

Mae enw Delwedd / ffeil yn enw ffeil unigryw a fydd yn cysylltu'r ffeil ddigidol â'r metadata yn y catalog i ganiatáu ei hadalw.

Dylid ei gofnodi fel jhasw_ [lleoliad gwreiddiol yr eitem] _0001. [fformat y ffeil - bydd hyn bron bob amser yn .jpg]

> Enghraifft:
> jhasw_ns_0001.jpg, jhasw_ns_0002.jpg, etc. [ns = Newport Shul]

Dylai'r cyfan fod mewn <u>llythrennau bach</u> a gyda <u>thanlinellau</u> i wahanu'r rhannau, NID cysylltnodau.

**Colofn 1: Y Ddelwedd Adnabod * (yn berthnasol dim ond os yw'r eitem yn aml-dudalen).**

Mae eitemau aml-dudalen yn eitemau sy'n cynnwys sawl delwedd sy'n gysylltiedig mewn rhyw fordd, e.e. tudalennau o lyfrau, pamffledi, rhaglenni, cyfres o ohebiaeth cysylltiedig, ac ati.

Pan fydd eitem yn cynnwys mwy nag un delwedd, cyfeirir at enw ffeil y clawr ddelwedd fel y 'Ddelwedd Adnabod' ac mae angen cysylltu'r enwau ffeiliau delwedd cysylltiedig canlynol ag ef yn y catalog. Rydych chi'n gwneud hyn trwy nodi enw ffeil y Ddelwedd Adnabod yn y golofn hon ar gyfer pob un o ddynodwyr cysylltiedig y ddelwedd. Gan gysidro'r pamffled, y Ddelwedd Adnabod fyddai enw ffeil y clawr ddelwedd a byddai'r delweddau o dudalennau unigol yn cael eu cysylltu yn ôl ag ef.

Mae hyn yn haws ei ddeall yn weledol, felly edrychwch ar yr enghraifft ar dudalen olaf y cyfarwyddiadau hyn.

**Colofn 2: Trefn y tudalennau *.**

Mae trefn y tudalennau yn pennu ym mha drefn y bydd y delweddau sy'n gysylltiedig a'r Ddelwedd Adnabod yn cael eu harddangos. Fel arfer, fel yn y mwyafrif o bamffledi ac ati, y clawr fydd y Ddelwedd Adnabod (wedi'i ddynodi fel Tudalen Trefn 1), tudalen un fydd Tudalen Trefn 2, tudalen dau fydd Tudalen Trefn 3 ac ati. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle rydych yn dymuno i eitemau gael eu harddangos mewn trefn wahanol i'r hyn y cawsant eu digideiddio a'u henwi, a gallwch wneud hyn trwy ddynodi rhifau Tudalennau Trefn perthnasol iddynt yma.

**Colofn 3: Teitl EN.**

Dylai teitl ystyrlon, sy'n dweud wrth y defnyddiwr beth yw'r eitem, ateb pwy, beth, ble, a phryd mor effeithiol â phosibl.

Dylai'r teitl hefyd gynnwys fformat yr eitem, e.e. ffotograff, cofnodion, adroddiad blynyddol, llythyr, toriadau papur newydd, ac ati.

> Enghraifft:
> Photograph [format] of the Newport Jewish Congregation [who] attending the Synagogue final service [what]**,** Newport [where]**,** 1997 [when – use the full date if known, in the format 3 November 1914]

NI ddylai teitlau ddiweddu gyda atalnod llawn; nodwch y comas!

**Colofn 4: Teitl CY.**

Os allwch chi ddarparu'r wybodaeth yn Gymraeg, dylai fod yn gyfieithiad o'r wybodaeth yng Ngholofn 3. Os gadewir hwn yn wag, defnyddir y teitl Saesneg.

**Colofn 5: Disgrifiad EN.**

Dylid nodi'r wybodaeth ganlynol yn y bocs 'Disgrifiad':

1) Disgrifiad o'r gwrthrych, crynodeb o'r cynnwys (os yw'n ddogfen destunol), a trawsgrifiad (os yw'r testun yn anodd ei ddarllen).

   Rhaid i grynodeb / disgrifiad gyfeirio at yr eitem yn ei chyfanrwydd (e.e. llyfr lloffion) A'R tudalennau unigol rydych chi wedi'u sganio (os yn eitem aml-dudalen).

   Dylai'r disgrifiadau fod yn wrthrychol ac yn niwtral eu naws.

2) Unrhyw wybodaeth gyd-destunol neu gefndirol i'w hychwanegu at yr eitem, e.e. hanes byr o gynulleidfa neu gymuned Iddewig benodol. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u hysgrifennu yn barod ac ond angen eu pastio i fewn.

3) Unrhyw ffynonellau perthnasol â hyperddolen lle bo hynny'n berthnasol.
4) Yr Archif neu'r Amgueddfa lle mae'r eitem wedi'i fyny at fan'ma.

Black and white poster entitled "Cardiff Jewish Roll of Honour for the Great War", printed in February 2000. The poster includes photographs of Jewish soldiers and nurses from Cardiff who served in the First World War, including Lieutenant Theo Fligelstone and Lieutenant Bert Fligelstone. The central figure in the poster is Reverend Harris Jerevitch. Rev. Jerevitch was born in Russia in 1886. He was appointed minister and head teacher of the Cathedral Road synagogue in 1908, and served the community until his retirement in 1953. The poster describes him as "Officiating clergyman to the Troops in Wales and the Counties of Monmouth and Hereford".

The Cardiff United Synagogue was established in 1942 when the Cardiff Hebrew Congregation and the Cardiff New Hebrew Congregation were united into a single organisation. The early years of the Cardiff congregation remain shrouded in mystery, but it is known that a Jewish cemetery was founded in 1841 and a purpose-built synagogue was built for the Cardiff Hebrew Congregation in 1858 in East Terrace. As the congregation outgrew the premises, a new synagogue was opened on Cathedral Road in 1897. In 1889, a group of recent immigrants left the “Englisher shul” to form the “foreigners’ shul” formally known as the Cardiff New Hebrew Congregation. Having initially worshipped at Edward Place and Clare Road, the New Congregation moved to purpose-built premises on Windsor Place in 1918. After the 1942 reunification, the Cardiff United Synagogue continued to use both the Windsor Place and the Cathedral Road synagogues until 1955 when the former was sold, and a new synagogue was built on Ty-Gwyn Road in Penylan. The Cathedral Road synagogue was eventually sold in 1988 and the Ty-Gwyn Road synagogue in 2003 with the congregation moving to its current premises in Cyncoed Gardens.

Sources:
'The History of the Jewish Diaspora in Wales' by Cai Parry-Jones (http://e.bangor.ac.uk/4987);
JCR-UK/JewishGen (https://www.jewishgen.org/jcr-uk/Community/card/index.htm).

Depository: Glamorgan Archives.

**Colofn 6: Disgrifiad CY.**

Os allwch chi ddarparu’r wybodaeth yn Gymraeg, dylai fod yn gyfieithiad o'r wybodaeth yng Ngholofn 5. Os gadewir hwn yn wag, defnyddir y disgrifiad Saesneg.

**Colofn 7: Tagiau EN.**

Mae tagiau yn eiriau sy'n gysylltiedig â'r eitem ac yn cysylltu eitemau gyda'i gilydd ar-lein; meant yn helpu'r broses chwilio.

Y tagiau y dylid eu cynnwys fel geiriau allweddol <u>bob amser hyd yn oed os cânt eu rhestru mewn man arall</u> :

- Jewish, Jewish community, Hebrew, Jews;

Er bod modd chwilio'r holl fetadata a bostiwyd ar CWC, mae'r allweddeiriau a nodir yma yn ffurfio'r tagiau y gellir eu clicio yn y bocs 'Eitemau eraill efo tagiau tebyg', wedi ei leoli ar y chwith ger gwaelod tudalen yr eitem ar CWC. Dylech gynnwys unrhyw eiriau allweddol y credwch fyddai'n arwain defnyddiwr at ddeunydd cysylltiedig defnyddiol arall (nad yw o reidrwydd yn rhan o'n casgliad), e.e., os yw ein heitem yn ymwneud â busnesau Victor Freed yn Aberdâr, yna fe allech chi ychwanegu 'siopau' fel tag.

Dylid cynnwys talfyriadau fel tagiau ar wahân, nid mewn cromfachau, e.e., yr Ail Ryfel Byd, WW2.

Dylai tagiau gael eu gwahanu gan <u>atalnodau</u> ; Dylai llythyren gyntaf pob tag fod mewn <u>priflythrennau</u> .

NI ddylai'r rhestr o dagiau ddod i ben gyda atalnod llawn.

**Colofn 8: Tagiau CY.**

Os allwch chi ddarparu’r wybodaeth yn Gymraeg, dylai fod yn gyfieithiad o'r wybodaeth yng Ngholofn 7. Os gadewir hwn yn wag, defnyddir y tagiau Saesneg.

**Colofn 9: Pa ffased.**

Cofiwch gynnwys 97,100,103 bob amser. Yna dewiswch gynifer ag sy'n berthnasol o'r adnabyddion a restrir yn nhaenlen CWC, wedi'u gwahanu gan atalnodau.

**Colofn 10: Pan fydd yn ffased.**

Dewiswch o'r adnabyddion a restrir yn y daenlen CWC.

Pan fydd eitem yn cyfeirio at ddigwyddiad cynharach neu gyfnod cynharach (e.e., erthygl papur newydd a ysgrifennwyd ar ben-blwydd sylweddol), caiff ei ddyddio yn unol â'r cynnwys / pwnc.

**Colofn 11: Dyddiad.**

Dyma'r dyddiad sy'n gysylltiedig â'r eitem, fel arfer y dyddiad y crëwyd yr eitem (llun wedi'i dynnu, llythyr wedi'i ysgrifennu, draft o gofnodion y cyfarfod, ac ati).

Y fformat i'w ddefnyddio: BBBB-MM-DD, e.e., 1963-01-07.

Os nad yw'r union ddyddiad yn hysbys dylid defnyddio'r fformatau canlynol:

- Y ganrif agosaf: 19?? -??-??
- Y degawd agosaf: 191?-??-??
- Amrediad o ddyddiadau: 1939/1945
- Os yw rhan o’r dyddiad yn hysbys e.e., mis a blwyddyn ond dim y diwrnod: 1922-06-??

PEIDIWCH â defnyddio c. (circa) pan nad yw'r union ddyddiad yn hysbys.

Os nad yw'r dyddiad yn hysbys o gwbl, nodwch 'Unknown'.

**Colofn 12: Y Crëwr.**

Y crëwr yw'r person / sefydliad a grewyd y gwreiddiol, e.e. ffotograffydd, peintiwr, awdur, golygydd ffilm, ac ati. Os nad yw'n hysbys, nodwch **'Unknown'** .

**Colofn 13: Y Perchennog.**

Y perchennog yw'r person / sefydliad sydd â’r eitem gwreiddiol nawr; gall hyn fod yn ystorfa, yn gymdeithas, yn sefydliad, neu'n unigolyn. Os nad yw'n hysbys, nodwch **'Unknown'** .

**DS:** Nid y perchennog presennol o reidrwydd yw crëwr yr eitem gwreiddiol.

**Colofn 14: Lleoliad.**

Dylai hwn fod yn enw lle megis pentref, tref neu ddinas sydd â'r cysylltiad agosaf â phwnc yr eitem.

Does DIM atalnod llawn ar y diwedd.

**Colofn 15: Lleoliad (lledred a hydred).**

I gael y lledred a'r hydred ar gyfer adeilad penodol, lleolwch ef ar Google Maps. Rhowch glic dde ar y lleoliad ac mae bocs dialog yn ymddangos, rhowch glic chwith ar y rhifau ar frig y bocs a byddant yn cael eu copïo i'ch clipfwrdd. Yna gellir eu pastio i'r catalog.

Fe sylwch fod y rhif a fydd yn cael ei bastio i'r catalog yn llawer hirach na'r hyn a ddangosir yn y bocs dialog. Peidiwch â phoeni am hyn - am ryw reswm mae Google wedi penderfynu gwneud y cyfeiriadau hyn yn ofnadwy o benodol – hyd at llai nag un biliwn o fetr. Pe byddent yn weladwy i'r cyhoedd, byddem yn eu cwtogi, ond dim ond ar gyfer lleoli'r eitem yn ddaearyddol ar fap y byddent yn cael eu defnyddio.

Os ydych chi'n chwilio am ardal ehangach fel stryd, pentref neu dref, rhowch yr enw yn Google a gwnewch yr un broses yn seiliedig ar 'ganolbwynt' awtomatig yr ardal, h.y., cliciwch ar yr eicon bach oren.

**Colofn 16: Gwefan EN.**

Rhowch URL (cyfeiriad gwe) y sefydliad sy'n berthnasol i'r eitem (y Crëwr neu'r Berchennog yr Hawliau yw hyn fel rheol).

**Colofn 17: Gwefan CY.**

Os allwch chi ddarparu'r wybodaeth yn Gymraeg, dylai fod yn gyfieithiad o'r wybodaeth yng Ngholofn 16. Os gadewir hwn yn wag, defnyddir yr enw Saesneg.

**Colofn 18: Math yr Hawl 1.**

Rhowch y gair **Owner** bob amser

**Colofn 19: Deiliad 1 EN.**

Rhowch yr un wybodaeth ag yng Ngholofn 13.

**Colofn 20: Deiliad 1 CY.**

Os allwch chi ddarparu'r wybodaeth yn Gymraeg, dylai fod yn gyfieithiad o'r wybodaeth yng Ngholofn 19. Os gadewir hwn yn wag, defnyddir yr enw Saesneg.

**Colofn 21: Peidiwch â defnyddio.**

**Colofn 22: Peidiwch â defnyddio.**

**Colofn 23: Peidiwch â defnyddio.** [ar gyfer Hanes Llafar yn unig] **.**

**Colofn 24: Peidiwch â defnyddio.**

**Colofn 25: Peidiwch â defnyddio.**

**Colofn 26: Peidiwch â defnyddio.**

* Enghraifft o gofnod ar gyfer Eitemau Aml-dudalen:

| | A | B | C | D |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **0** | **1** | **2** | **3** |
| 2 | | **See instructions for multi-part items** | | |
| 3 | **Image/File Name** | **Parent ID*** | **Page Order*** | **Title EN** |
| 4 | jhasw_cus_0680.jpg | | 1 | Order of Service booklet on the consecration of the new standard at Penylan Synagogue, Cardiff on 5 November 1978 |
| 5 | jhasw_cus_0681.jpg | jhasw_cus_0680.jpg | 2 | |
| 6 | jhasw_cus_0682.jpg | jhasw_cus_0680.jpg | 3 | |

# Hawlfraint: Cyflwyniad byr iawn.

Mae hawlfraint yn rhoi hawl i grewyr gwaith llenyddol, dramatig, cerddorol ac artistig reoli'r ffyrdd y gellir defnyddio eu deunydd. Nid oes rhaid i'r gwaith fod â gwerth artistig na llenyddol. Mae hawlfraint yn cynnwys unrhyw waith sy'n ganlyniad o sgil yr awdur neu sydd wedi golygu buddsoddi amser, ymdrech a / neu arian. Mae hyn yn cynnwys ffotograffau, llythyrau, llawysgrifau, dogfennau masnachol, mapiau, taflenni, cylchlythyrau, erthyglau ac ati.

Mae'r hawlfraint yn perthyn i grëwr y gwaith, nid ei berchennog corfforol. Fel rheol, yr unigolion neu'r grŵp a ysgrifennodd y gwaith yn unig fydd yn berchen ar yr hawliau, oni bai ei fod wedi ei neilltuo'n benodol mewn man arall. Fodd bynnag, os cynhyrchir gwaith fel rhan o gyflogaeth; yna fel rheol, y cyflogwr sy'n eiddo ar y gwaith.

Efallai y bydd gan un eitem lawer o ddeiliaid hawlfraint. Er enghraifft, mae'n bosibl bod crëwr gwahanol ym mhob un o'r darnau o destun, ffotograffau, lluniadau, cynllun a gwaith celf taflen. Dyma un rheswm pam y gallai sefydliadau fod yn amharod i roi caniatâd i chi gyhoeddi.

Os tynnwch chi ffotograff o ffotograff, yna bydd gennych chi a'r ffotograffydd gwreiddiol (yn ogystal ag unrhyw grëwr yr eitem y tynnwyd llun ohono) yr hawlfraint dros eich cyfraniadau annibynnol. Dylech gael caniatâd ysgrifenedig ar gyfer popeth rydych chi'n bwriadu ei wneud gyda'r gwaith (mae e-bost yn dda ar gyfer hyn). Cofiwch gydnabod unrhyw ddeiliad hawlfraint pan fyddwch chi'n cyhoeddi.

Efallai na fyddwch yn gallu adnabod deiliad yr hawlfraint. Er enghraifft, efallai nad ydych chi'n gwybod pwy dynnodd lun. Dylech wneud pob ymdrech i adnabod deiliad yr hawlfraint a dogfennu hyn. Yna gallwch benderfynu cyhoeddi gyda nodyn yn dynodi y gwnaed yr ymdrechion gorau i ddarganfod deiliad yr hawliau, y dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth am yr eitem gysylltu â chi, a gall unrhyw un sy'n credu mai nhw yw deiliad yr hawliau ofyn i'r eitem gael ei dileu.

Mae hawlfraint yn aml yn dod i ben 70 mlynedd ar ôl marwolaeth yr awdur, ond mae yna eithriadau. Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys dwy siart llif (ar gyfer gwaith sydd ddim yn perthyn i'r Goron a gwaith sydd yn perthyn i'r Goron) sy'n dangos hyd yr hawlfraint, gweler: https://www.nationalarchives.gov.uk/documents/information-management/copyright-related-rights.pdf .

Efallai y bydd y wefan hon yn ddefnyddiol i chi hefyd: https://naomikorn.com/resources/ .

Mae gan Casgliad y Werin Cymru ganllaw defnyddiol iawn eu hunain ar hawlfraint fel adran yn eu canllaw i Ddigido Casgliadau Mawr https://www.casgliadywerin.cymru/sites/default/files/ps-digido.pdf



Tudalen 8 | 8